Yn dilyn fy e-bost ar 10 Mehefin 2014, rwyf nawr mewn sefyllfa i ymateb i'ch cais ar 4 Mehefin 2014, y cawsom esboniad ohono gennych ar 1 Gorffennaf 2014. Dyma oedd eich esboniad:

Mae'r ohebiaeth rwy'n gofyn amdani yn ymwneud ag unrhyw adroddiadau mewnol neu allanol a baratowyd/negeseuon e-bost/briffiau, llythyrau, datganiadau (unrhyw beth ysgrifenedig yn wir) ac ati ar Rhondda Life a baratowyd rhwng Gorffennaf 2012 a Mai 2014 ac fel y dywedwch yn eich e-bost "rhwng yr Archwilydd Cyffredinol, ei staff, Swyddfa Archwilio gorfforaethol newydd Cymru a'i staff, ac ar y llaw arall, unigolion a sefydliadau eraill".

Amgaeaf yr eitemau canlynol:

1. E-bost gan Leighton Andrews at Huw Thomas ar 13 Rhagfyr 2012 15:21, e-bost gan Huw Thomas at Leighton Andrews ar 13 Rhagfyr 2012 am 17:06;
2. E-bost gan Chris Bryant at Huw Thomas ar 13 Rhagfyr 2012 am 17:26, e-bost gan Huw Thomas at Chris Bryant ar 13 Rhagfyr 2012 am 19:10 – golygwyd yr eitem hon am y rheswm a nodir yn (iii) isod;
3. Llythyr gan Leighton Andrews at Huw Vaughan Thomas ar 18 Chwefror 2013;
4. E-bost gan Ian Phillips at Arwel Thomas ar 25 Chwefror 2013 am 10:35;
5. E-bost gan Ian Phillips at Leighton Andrews ar 25 Chwefror 2013 am 14:30;
6. E-bost gan Arwel Thomas at Ian Phillips ar 26 Chwefror 2013 am 14:32 ac atodiad – golygwyd yr eitem hon am y rheswm a nodir yn (iii) isod;
7. E-bost gan Leighton Andrews at Ian Phillips ar 27 Chwefror 2013 am 17:32 – golygwyd yr eitem hon am y rheswm a nodir yn (iii) isod;
8. E-bost gan Ian Phillips at Leighton Andrews ar 04 Mawrth 2013 am 10:00 - golygwyd yr eitem hon am y rheswm a nodir yn (iii) isod;
9. E-bost gan Leighton Andrews at Ian Phillips ar 04 Mawrth 2013 am 10:07 - golygwyd yr eitem hon am y rheswm a nodir yn (iii) isod;
10. E-bost gan Leighton Andrews at Martin Peters ar 07 Mawrth 2013 am 17:49, e-bost gan Martin Peters at Leighton Andrews ar 5 Mawrth 2013 am 11:59;
11. E-bost gan Martin Peters at Leighton Andrews ar 19 Ebrill 2013 am 16:37 ac Adroddiad Archwiliad Mewnol Llywodraeth Cymru fel atodiad - golygwyd yr adroddiad am y rheswm a nodir yn (iii) isod;
12. E-bost gan Leighton Andrews at Martin Peters ar 22 Ebrill 2013 am 12:06;
13. E-bost gan Martin Peters at Leighton Andrews ar 26 Ebrill 2013 am 17:13 a dogfen "Atodiad A" Archwiliad Mewnol Llywodraeth Cymru - golygwyd yr eitem hon am y rheswm a nodir yn (iii) isod a golygwyd dogfen "Atodiad A" am y rhesymau a nodir yn (i), (ii), (iii) a (iv) isod;
14. E-bost gan Clare Collett at David Burridge ar 25 Gorffennaf 2012 am 15:48 – cadwyd yr atodiad i'r eitem hon yn ôl am y rhesymau a nodir yn (i), (ii), (iii) a (iv) isod ond nodwch fod copi wedi'i olygu o'r adroddiad terfynol wedi'i ddatgelu yn eitem 11;
15. E-bost gan Clare Collett at David Burridge ar 17 Medi 2012 am 15:29 – golygwyd y llythyr a amgaewyd gyda'r e-bost hwn am y rhesymau a nodir yn (i), (ii) a (iv) isod ac mae'r atodiadau eraill wedi'u cadw yn ôl am yr un rhesymau a'r rheswm a nodir yn (iii) isod. Fodd bynnag, nodwch fod copïau wedi'u golygu o'r adroddiad terfynol a dogfen "Atodiad A" wedi'u datgelu yn eitemau 11 ac 13;
16. E-bost gan Mike Usher at Arwel Thomas ar 15 Tachwedd 2012 am 22:51 - golygwyd y llythyr a amgaewyd gyda'r e-bost hwn am y rhesymau a nodir yn (i) a (ii) isod ond nodwch fod fersiwn derfynol y llythyr hwn ar gael i chi drwy ddull arall (gweler (e) isod);
17. E-bost gan Mike Usher at Arwel Thomas ar 6 Rhagfyr 2012 am 18:34 – golygwyd y llythyr a amgaewyd gyda'r e-bost hwn am y rhesymau a nodir yn (i) a (ii) isod ond nodwch fod fersiwn derfynol y llythyr hwn ar gael i chi drwy ddull arall (gweler (e) isod);
18. E-bost gan Arwel Thomas at Mike Usher ar 7 Rhagfyr 2012 am 16:33;

19. E-bost gan Mike Usher at Arwel Thomas ar 13 Rhagfyr 2012 am 17:12;
20. Llythyr gan Travers Merrill i Swyddfa Archwilio Cymru dyddiedig 18 Rhagfyr 2012 – golygwyd yr eitem hon am y rheswm a nodir yn (iii) isod;
21. Llythyr gan Fiona Bashford at Travers Merrill dyddiedig 28 Rhagfyr 2012 – golygwyd yr eitem hon am y rheswm a nodir yn (iii) isod;
22. Llythyr gan Huw Vaughan Thomas at Travers Merrill dyddiedig 10 Ionawr 2013 – golygwyd yr eitem hon am y rheswm a nodir yn (iii) isod;
23. E-bost gan Martin Peters at Arwel Thomas ar 12 Ebrill 2013 am 16:38, e-bost gan Martin Peters at Arwel Thomas ar 12 Ebrill 2013 am 16:40, e-bost gan Martin Peters at Arwel Thomas ar 15 Ebrill am 17:40 – golygwyd yr e-bost hwn am y rheswm a nodir yn (iv) isod a golygwyd yr atodiadau i'r eitem hon am y rhesymau a nodir yn (i), (ii), (iii) a (iv) isod ond nodwch fod copïau wedi'u golygu o'r atodiadau hyn wedi'u datgelu yn eitemau 11, 13 ac 16;
24. E-bost gan Martin Peters at Arwel Thomas ar 18 Ebrill 2013 am 19:40 – cadwyd yr atodiad yn ôl am y rhesymau a nodir yn (i), (ii), (iii) a (iv) isod ond nodwch fod copi wedi'i olygu o'r adroddiad wedi'i ddatgelu yn eitem 11;
25. E-bost gan Arwel Thomas at Martin Peters ar 19 Ebrill 2013 am 08:44 golygwyd yr eitem hon am y rheswm a nodir yn (i) a (iv) isod;
26. E-bost gan Martin Peters at Arwel Thomas ar 19 Ebrill 2013 am 16:37 – golygwyd yr eitem hon am y rheswm a nodir yn (i) a (iv) isod;
27. E-bost gan Martin Peters at Arwel Thomas ar 22 Ebrill 2013 am 16:04 – golygwyd yr eitem hon am y rheswm a nodir yn (i) a (iv) isod ac mae'r atodiadau i'r e-bost hwn wedi'u cadw yn ôl am y rhesymau a nodir yn (i), (ii), (iii) a (iv) isod ond nodwch fod copi wedi'i olygu o ddogfen "Atodiad A" wedi'i ddatgelu yn eitem 13;
28. E-bost gan Martin Peters at Arwel Thomas ar 24 Ebrill 2013 am 18:58;
29. E-bost gan Arwel Thomas at Martin Peters ar 25 Ebrill 2013 am 09:06;
30. E-bost gan Martin Peters at Arwel Thomas ar 25 Ebrill 2013 am 09:42 – cadwyd yr eitem hon yn ôl am y rheswm a nodir yn (iii) isod.

(i) Byddai datgelu'r wybodaeth yn amharu ar swyddogaethau archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru. Byddai datgelu'r wybodaeth yn amharu ar y berthynas waith effeithiol rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a Gwasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru. Mae angen perthynas waith effeithiol i gynnal prosesau archwilio effeithiol ac effeithlon. Mae'r wybodaeth, felly, yn dod o dan yr eithriad a ddarparwyd gan adran 33 (swyddogaethau archwilio) Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cael gwybodaeth ehangach am waith archwilwyr y sector cyhoeddus o les i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae lles y cyhoedd sy'n gysylltiedig â chynnal archwiliad cyhoeddus effeithiol ac effeithlon, ac osgoi niwed posibl i'r berthynas a fyddai'n digwydd o ddatgelu gwybodaeth, yn fwy nag elfen lles y cyhoedd sy'n gysylltiedig â datgelu'r wybodaeth. Rwyf felly wedi penderfynu y dylid cynnal yr eithriad a ddarperir gan adran 33 er lles y cyhoedd.

(ii) Byddai datgelu'r wybodaeth yn amharu ar y gallu i gynnal materion cyhoeddus yn effeithiol. Cafodd adroddiad archwilio mewnol drafft Llywodraeth Cymru, a'r ohebiaeth gysylltiedig, eu darparu fel bod modd cyfnewid barn yn onest ac agored at ddibenion trafod. Byddai datgelu gwybodaeth o'r fath yn cyfyngu ar y broses honno. Mae'r wybodaeth, felly, yn dod o dan eithriad adran 36(2)(b)(ii) y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae cael gwybodaeth ehangach am waith archwilwyr y sector cyhoeddus o les i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae lles y cyhoedd sy'n gysylltiedig â chynnal archwiliad cyhoeddus effeithiol ac effeithlon, ac osgoi niwed posibl i'r berthynas a fyddai'n digwydd o ddatgelu gwybodaeth, yn fwy nag elfen lles y cyhoedd sy'n gysylltiedig â datgelu'r

wybodaeth. Rwyf felly wedi penderfynu y dylid cynnal yr eithriad a ddarperir gan adran 33 er lles y cyhoedd.

Mae isadran arall o eithriad adran 36 yn berthnasol hefyd. Byddai datgelu'r wybodaeth yn amharu ar y gallu i gynnal materion cyhoeddus fel arall hefyd (adran 36(2)(c)). Byddai datgelu'r wybodaeth sy'n ymwneud ag ymchwiliadau mewnol Llywodraeth Cymru yn debygol o niweidio ein perthynas â Llywodraeth Cymru ac yn effeithio'n andwyol ar gyswllt tebyg yn y dyfodol. Mae yna elfen lles y cyhoedd yn gysylltiedig â datgelu, o ran y byddai datgelu yn helpu pobl i ddeall sut rydym yn gweithio. Fodd bynnag, mae mwy o les i'r cyhoedd o gynnal yr eithriad er mwyn osgoi niwed posibl i'n perthynas waith â Llywodraeth Cymru. Rwyf felly wedi penderfynu y dylid cynnal yr eithriad er lles y cyhoedd

(iii) Mae'r wybodaeth yn dod o dan yr eithriad ar gyfer gwybodaeth bersonol yn adran 40(2) y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, sy'n eithriad absoliwt. Mae'r eithriad yn berthnasol gan y byddai datgelu yn torri egwyddorion diogelu data Deddf Diogelu Data 1998.

(iv) Byddai datgelu yn niweidio buddiannau masnachol Rhondda Life Ltd a/neu drydydd partïon. Mae'r wybodaeth yn dod o dan eithriad adran 43 (buddiannau masnachol) y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r rhesymau pam mae'r eithriad yn berthnasol yn esempt eu hunain ac rwyf wedi penderfynu y dylid cynnal yr eithriad er lles y cyhoedd.

Mae gennym yr eitemau canlynol hefyd sy'n cyfateb i ddisgrifiad eich cais, ond gan mai gohebiaeth rhwng Leanne Wood AC a Swyddfa Archwilio Cymru ydynt, rwy'n cymryd eich bod yn gallu cael gafael arnynt drwy ddull arall. O ganlyniad, mae eithriad adran 21 (gwybodaeth sy'n hygyrch i ymgeisydd drwy ddull arall) y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn berthnasol i'r eitemau hyn. Fodd bynnag, os nad ydych yn gallu cael gafael ar unrhyw un o'r eitemau canlynol, rhowch wybod i mi ac fe anfonaf gopïau atoch.

(a) E-bost gan Leanne Wood at Huw Thomas ar 2 Gorffennaf 2012 am 16:59;
(b) E-bost gan Helen Jones at Leanne Wood ar 24 Gorffennaf 2012 am 11:34;
(c) Llythyr gan Huw Vaughan Thomas at Leanne Wood ar 24 Gorffennaf 2012;
(d) Llythyr gan Huw Vaughan Thomas at Darren Millar ar 17 Awst 2012;
(e) Llythyr gan Huw Vaughan Thomas at Darren Millar ar 11 Rhagfyr 2012.

Mae gennym wybodaeth arall sy'n cyfateb i ddisgrifiad eich cais hefyd. Mae'r wybodaeth yn dod o dan un neu fwy o'r eithriadau a nodwyd uchod. Caiff eitem arall ei chadw'n ôl gan fod y wybodaeth yn dod o dan eithriad adran 41 (gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol) y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ac y byddai datgelu'r wybodaeth yn torri cyfrinachedd. Mae eithriad adran 41 yn eithriad absoliwt.

Os ydych am gwyno am y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, anfonwch e-bost neu ysgrifennwch ataf.

Dylwn eich cyfeirio hefyd at adran 50 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth sy'n eich galluogi i wneud cais i'r Comisiynydd Gwybodaeth benderfynu a ymdriniwyd â'ch cais yn unol â'r Ddeddf. Dyma fanylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane

Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
e-bost : casework@ico.gsi.gov.uk

Ffôn: 01625 545745
Ffacs: 01625 524510

Fodd bynnag, dylech nodi y bydd y Comisiynydd Gwybodaeth yn disgwyl i chi fod wedi mynd trwy ein gweithdrefnau cwyno mewnol ni yn gyntaf cyn ymdrin â chais o'r fath. Mae rhagor o arweiniad ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth http://www.informationcommissioner.gov.uk.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â fi.

Yn gywir

Ian Phillips